

## Tasg 1

# Y “ffrind” o dan y gobennydd

1. Ar gyfer pwy mae'r darn hwn wedi ei ysgrifennu'n bennaf?
  - a. plant
  - b. pobl ifanc
  - c. pobl canol oed
  - ch. pobl hŷn

Rhowch resymau dros eich ateb.

2. Beth yw **prif** bwrpas y darn?
  - a. gwneud hwyl am ben pobl
  - b. rhybuddio pobl
  - c. rhoi gwybodaeth i bobl
  - ch. beirniadu pobl
  
3. Beth yw **prif** neges y darn?
  - a. rhaid i chi fwyta'n iach.
  - b. rhaid i chi gadw'n heini.
  - c. rhaid i chi roi'r ffôn mewn lle diogel bob nos.
  - ch. rhaid i chi beidio â defnyddio'r ffôn yn y gwely.

4. Mae'r arddull y darn yn ...
- a. anffurfiol
  - b. difrifol
  - c. barddonol
  - ch. disgrifiadol

Rhowch enghreifftiau i gadarnhau'ch ateb chi.

5. Mae'r tôn yn ...
- a. emosiynol
  - b. ysgafn
  - c. sarcastig
  - ch. flin / grac

Rhowch enghreifftiau i gadarnhau'ch ateb chi.

6. Pam mae'r gair "ffrind" mewn dyfynodau yn y darn hwn?

7. Sut gall ffonau symudol effeithio ar gwsg?

8. Beth yw canlyniad hyn?

9. Ydych chi'n defnyddio'r ffôn symudol ar ôl mynd i'r gwely? Trafowch hyn, e.e.

- Beth rydych chi'n ei wneud ar y ffôn?
- Pa mor aml rydych chi'n defnyddio'r ffôn ar ôl mynd i'r gwely?
- Ydy'r ffôn ymlaen drwy'r nos?
- Beth ydy agwedd eich rhieni chi at hyn – os ydych chi'n defnyddio'r ffôn yn y gwely?

10. Beth yw'ch barn chi am y wybodaeth ar y brif sgrin? Rhowch resymau dros eich ateb.